# Ysgol Llanhari

# Polisi Gwrth Fwlio
# Diwygiwyd Mai 2022

## Gwrth Fwlio: datganiad polisi ysgol gyfan

### Beth yw bwlio?

Bwlio yw patrwm ymddygiad rheolaidd gan unigolyn neu grŵp sy'n defnyddio pŵer yn fwriadol gyda'r bwriad o beri niwed corfforol, emosiynol neu feddyliol i'r dioddefwr.

Mae'n awydd bwriadol, ymwybodol i frifo, bygwth neu ddychryn yr un unigolyn yn gorfforol neu yn eiriol ar fwy nag unwaith. Fodd bynnag, gallai bwli dan amgylchiadau penodol fod yn anymwybodol o'r effaith y mae'n ei chael ar y dioddefwr ac mae angen tynnu sylw'r bwli o ganfyddiad y dioddefwr ei fod yn cael ei fwlio.

Bwlio yw unrhyw fath o ymddygiad parhaus sy'n defnyddio pŵer yn fwriadol gyda'r bwriad o wneud y dioddefwr yn anhapus.

Mae disgyblion Llanhari wedi creu eu diffiniad eu hunain: ***'Mae bwlio yn rhywbeth cyson, sy'n aml yn fwriadol, ac sy'n cael effaith negyddol ar unigolyn sydd wedi'i dargedu.'***

Gall bwlio fod yn eiriol, yn gorfforol neu'n emosiynol. Disgrifir disgybion sy'n cael eu bwlio fel **targedau**. Gelwir disgybl sy'n ymddwyn yn fwliaidd tuag at eraill yn **dramgwyddwr** tra mai **gwyliedydd** yw rhywun sy'n bresennol yn ystod digwyddiad o fwlio ond ni fydd yn cyfranogi.

Yn ôl y canllaw statudol *Herio bwlio – Hawliau, parch a chydraddoldeb* (Dogefn Llywodraeth Cymru Tachwedd 2019) diffinir bwlio fel

***Ymddygiad gan unigolyn neu grŵp, sy'n cael ei ailadrodd yn raddol dros gyfnod, sy'n niweidio eraill yn fwriadol, naill ai'n gorfforol neu'n emosiynol.***

Nodir ymhellach yn y ddogfen :

Caiff bwlio ei fynegi trwy gyfrwng amrywiaeth o ymddygiadau niweidiol; gall ddigwydd wyneb yn wyneb neu yn yr amgylchedd digidol. Gall gael ei achosi gan unigolyn neu gan grŵp, ond bydd fel arfer yn digwydd o flaen cynulleidfa i bwysleisio grym neu boblogrwydd. Gall gynnwys elfen o gyfrinachedd i sicrhau na fydd oedolion yn ymwybodol ohono.

Mae bwlio yn wahanol i ddadl, ymladd neu gweryl rhwng ffrindiau oherwydd:
- mae'n fwriadol
- bydd yn cael ei ailadrodd dro ar ôl tro fel arfer
- ceir canfyddiad o anghydbwysedd grym rhwng y tramgwyddwr a'r targed
- bydd bwlio yn creu teimladau o ofid, ofn, unigrwydd, cywilydd a bod yn ddiymadferth.

Dilyna'r ysgol ddisgwyliad Llywodraeth Cymru lle caiff ymyriadau eu gweithredu yn syth, mewn achosion o fwlio neu yn achos unrhyw ymddygiad negyddol unigol arall. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ddigwyddiadau unigol nad ydynt yn ymddangos yn fan cychwyn bwlio gael eu trin a'u trafod fel ymddygiad anaddas ac mae'n disgwyl

y bydd yr ysgol yn mynd i'r afael â hwy yn unol â'u polisi ymddygiad. Yn ôl aelodau'r cygnor ysgol dylid addysgu disgyblion o'r gwahaniaeth rhwng bwlio difrifol sy'n barhaus a digwyddiad unigol e.e.yr hyn a ddiffinir fel "banter" neu gellwair.

Rhestrir isod elfennau nodweddiadol ymddygiad sy'n cael eu hystyried yn fwlio :
**bwriad i niweidio** – mae bwlio yn rhywbeth bwriadol, a'r bwriad yw achosi niwed. Bydd y rhai sy'n bwlio eraill yn aml iawn yn fedrus iawn yn yr ystyr eu bod yn gwybod sut yn union i fychanu neu frifo eu targed, gan roi sylw i agweddau allweddol o'u golwg, eu personoliaeth neu eu hunaniaeth i sicrhau'r effaith a ddymunir. Byddant yn canfod yr agwedd ble mae ganddynt rym dros eu targed

**canlyniad niweidio** – caiff rhywun (neu grŵp) ei frifo yn gorfforol neu'n emosiynol. Gallant gael eu hynysu, gellir codi cywilydd arnynt neu wneud iddynt deimlo'n ofnus. Bydd eu hymdeimlad o'u hunan-werth yn lleihau

**gweithredoedd uniongyrchol neu anuniongyrchol** – gall bwlio gynnwys ymddygiad ymosodol uniongyrchol, megis taro rhywun, yn ogystal â gweithredoedd anuniongyrchol megis lledaenu sïon neu rannu delweddau personol iawn â phobl na fwriadwyd iddynt weld yr wybodaeth neu'r delweddau

**ailadrodd** – bydd bwlio fel arfer yn cynnwys ailadrodd ymddygiad negyddol neu weithredoedd ymosodol. Fel arfer, ni fydd gweithred ymosodol unigol, megis ymladd, yn cael ei hystyried yn fwlio. Fodd bynnag, gall unrhyw ddigwyddiad fod yn fan cychwyn patrwm o ymddygiad bwlïaidd sy'n datblygu wedi hynny. Dyna pam mae cofnodion o ddigwyddiadau mor werthfawr. Yn ôl y cyngor ysgol, dylid rhybuddio os oes un digwyddiad ond yna cosbi os yw'n digwydd eto.

**grym anghyfartal** – mae bwlio yn cynnwys camddefnydd o rym gan un unigolyn neu grŵp sy'n fwy grymus (neu sy'n cael eu hystyried felly), yn aml oherwydd eu hoedran, eu nerth corfforol, eu poblogrwydd neu eu cadernid seicolegol.

**Enghreifftiau o fwlio**

**Bwlio geiriol/mewn negeseuon:**
**Patrymau ailadroddus o:**
Galw enwau, gwawdio, hel straeon, poeni, bod yn anghyfeillgar, defnyddio nodiadau ysgrifenedig, negeseuon e-bost neu destun, bygwth.

**Bwlio corfforol:**
**Patrymau ailadroddus o:**
Hergwd, gwthio, cicio, bwrw, brifo, pwno yn fwriadol neu unrhyw fath arall o ymosod. Gallai'r rhai sy'n gyfrifol honni mai damwain oedd hi ar y dechrau. Pan fo eiddo yn cael ei ddwyn neu ei ddifrodi â'r bwriad o godi ofn a defnyddio pŵer yn amhriodol, gall hyn ffurfio rhan o'r bwlio.

**Bwlio emosiynol**
**Patrymau ailadroddus o:**
Defnyddio pŵer i eithrio, allgau neu ymylu unigolion. Mae'n aml yn cynnwys hel straeon neu gyhuddiadau maleisus am ffrindiau neu deulu. Gall hyn ddigwydd yn aml trwy gyfrwng technoleg fodern megis y we, ffonau camera.

**Bwlio trwy eithrio - arwahanrwydd**
Gall hyn fod yn gyfrwys a gall y bwli fod yn 'ffrind' a gellir peidio â sylwi arno wrth i gyfoedion gael eu hallgau neu eu twyllo yn fwriadol.

**Bwlio trwy orelwa**
Mae pethau neis, arian bws ac arian, offer ar gyfer gwersi yn rhoi cyfleoedd i fwli amlygu ei hun a chymryd eiddo pobl eraill.

**Ar-lein**
Seiberfwlio yw pan fo unigolyn neu grŵp o bobl yn bygwth, poeni, codi cywilydd gan ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, technoleg ddigidol a ffonau. Gall hyn gynnwys hefyd rhwydweithiau cymdeithasol, gemau, ystafelloedd sgwrsio, fforymau neu apiau i fwlio trwy gyfrwng negeseuon testun, negeseuon, delweddau neu fideo

**Niweidio perthnasoedd** – bwlio sy'n ceisio gwneud niwed i berthnasoedd neu statws cymdeithasol y targed: annog ei ffrindiau i droi cefn arno, elwa ar anghenion addysgol arbennig (AAA) neu salwch tymor hir unigolyn, targedu statws cymdeithasol ei deulu, ynysu neu godi cywilydd ar rywun yn fwriadol neu achosi helynt yn fwriadol i rywun

**Rhywiol** – cyffwrdd digroeso, bygythiadau, sylwadau a jôcs neu ensyniadau. Gall hyn hefyd gynnwys blacmel rhywiol, yr hyn a elwir yn 'bornograffi dial' ac unrhyw gamddefnydd o luniau personol a chignoeth o'r dysgwr sy'n cael ei dargedu

**Cysylltiedig â rhagfarn** – bwlio dysgwr neu grŵp o ddysgwyr oherwydd rhagfarn. Gallai hyn fod yn gysylltiedig â stereoteipiau neu ragdybiaethau ynghylch hunaniaeth. Mae bwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn yn cynnwys y nodweddion gwarchodedig. Gall rhagfarn ymestyn y tu hwnt i'r nodweddion gwarchodedig a gall arwain at fwlio oherwydd amrywiaeth o resymau eraill megis statws cymdeithasol a chefndir.

Mae'r **nodweddion gwarchodedig** yn ôl Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cynnwys oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

Wrth ystyried beth yw bwlio, mae'n bwysig bod gan holl randdeiliad yr ysgol ddealltwriaeth hefyd o beth sydd ddim yn fwlio. Bydd yr ysgol yn delio ag achosion tebyg i'r isod yn unol â pholisi ymddygiad yr ysgol. Nodir yn canlynol yng nghanllaw Llywodraeth Cymru (Tachwedd 2019):

- Cweryl rhwng ffrindiau
- Ymladd sy'n digwydd unwaith
- Ffrae neu anghytundeb
- Ymosodiad corfforol sy'n digwydd unwaith
- Sylwadau sarhaus a chellwair

- Trosedd casineb sy’n digwydd unwaith

Mae disgwyl i’r ysgol gadw cofnodion o achosion o’r fath.

## Datganiad Polisi ar Fwlio – Pam?

Mae’n hanfodol bod disgyblion yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol ac yn cael cefnogaeth i wireddu eu potensial. Credwn yn gryf fel ysgol bod angen addysgu disgyblion am barch a phwysigrwydd cynnal cydberthnasau iach. Mae hyn yn sail i ethos ein hysgol ac rydym yn ymrwymo i ddelio ag unrhyw achosion o fwlio.

Mae bwlio yn brifo. Nid oes unrhyw un yn haeddu dioddef bwlio. Mae gan bawb yr hawl i gael eu trin â pharch. Mae angen i bobl sy’n bwlio ddysgu ffyrdd gwahanol o ymddwyn.

Mae Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion gael Polisi Gwrth Fwlio. Mae’r canllawiau gwrth-fwlio cyfredol yn statudol ers Tachwedd 2019.

Mae’r corff llywodraethu yn gwerthfawrogi’r berthynas dda a gaiff ei meithrin yn yr ysgol ac yn disgwyl i bob honiad o fwlio yn cael ei drin o ddifrif. Cred y Corff Llywodraethu y dylid gwrando ar bryderon pob plentyn a chymryd camau priodol.

Gall bwlio beri gofid personol mawr. Gall effeithio ar ddysgu ac arwain at chwarae triwant ac absenoldeb diawdurdod. Mae ein polisi sy’n ymwneud â bwlio yn rhan annatod o’n strategaethau cefnogi disgyblion ehangach, ac mae cyfrifoldeb ar bawb sy’n gweithio yn yr ysgol i sicrhau y cynhelir safonau ymddygiad derbyniol. Mae’n rhaid gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau nad yw bwlio yn digwydd, trafod unrhyw achosion sy’n codi yn agored a dilyn y gweithdrefnau a nodir yn y polisi hwn i ddatrys materion o fwlio.

Dylai pob aelod o staff, pob disgybl a phob rhiant fod yn ymwybodol o effeithiau negyddol y gall bwlio eu cael ar unigolion a’r ysgol yn gyffredinol, a dylid gweithio i sicrhau y gall disgyblion weithio mewn amgylchedd heb ofn. Caiff y safonau hyn eu hegluro i’r disgyblion a’u rhieni yn y Prosbectws Ysgol ac ym Mholisi Ymddygiad Cadarnhaol yr ysgol. Mae y polisi gwrth-fwlio yn sefyll ar wahân i’r ddwy ddogfen hon ond yn gysylltiedig.

Mae bwlio yn cyfrannu at absenoldeb ysgol ac mae cydberthynas agos rhwng bwlio a mathau eraill o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae’r straen a’r gofid yn sgil bod yn darged bwli effeithio’n ddirfawr ar y broses ddysgu oherwydd y gall gorbryder ddominyddu sylw y disgybl.

Mae bwlio yn annerbyniol yn yr ysgol hon ac ni chaiff ei dderbyn.

## Nodau

Yn Ysgol Llanhari ein nod yw sicrhau bod pob unigolyn yn mwynhau eu profiad addysgol ac yn cael cyfle i ddatblygu fel person cyfan sydd wedi datblygu sgiliau cymdeithasol

da. Gall ymddygiad o unrhyw fath sy'n peri poen, niwed, gofid neu loes i eraill ein hatal ni rhag cyflawni'r amcan hwn ac mae'n annerbyniol mewn unrhyw sefyllfa. Atgyfnerthir hyn yn nodau ac amcanion yr ysgol sydd wedi eu cymeradwyo gan staff a chyngor y disgyblion.

Mae'r ysgol yn ystyried bod achosion rheolaidd o ymddygiad o'r fath yn fwlio ac ymdrinnir â hyn yn fanwl yn y polisi hwn. Yr elfen hon o barhad ymwybodol o'r ymddygiad gormesol sy'n gwahaniaethu bwlio o fathau eraill o gamymddwyn.

Yn Ysgol Llanhari ein nod yw:

- datblygu perthynas waith ragorol rhwng disgyblion a staff ar sail ymrwymiad sylweddol i gynnydd a llwyddiant y disgybl;
- bod yn rhagweithiol, trwy weithgareddau bugeiliol, llesiant, cwricwlaidd ac allgyrsiol i hyrwyddo diwylliant lle mae disgyblion yn teimlo'n gynyddol eu bod yn randdeiliad pwysig yn nhrefniant yr ysgol;
- defnyddio ein gwasanaeth llesiant a'n dulliau cyfathrebu yn rhagweithiol i annog a datblygu perthynas a chyfathrebu cadarnhaol â rhieni i weithio gyda staff;
- creu strwythur ar gyfer adborth ar y deilliannau ac effaith strategaethau a gyflwynir i werthuso ac adolygu;
- dangos bod yr ysgol yn trin bwlio o ddifrif ac na chaiff ei dderbyn;
- cymryd camau i atal pob math o fwlio yn yr ysgol ac mewn gweithgareddau oddi ar y safle;
- cefnogi pawb yn y camau i nodi ac amddiffyn y rhai a allai cael eu bwlio;
- dangos i bawb y caiff diogelwch a hapusrwydd disgyblion ei atgyfnerthu trwy ymdrin yn gadarnhaol â bwlio;
- hyrwyddo amgylchedd lle **nad** yw'n drosedd dweud wrth rywun am fwlio;
- annog pobl yn weithredol i adrodd am achosion o fwlio; nad yw'n dderbyniol bod yn oddefol;
- hyrwyddo agweddau cadarnhaol ymhlith disgyblion;
- croesgyfeirio hyn â pholisïau perthnasol eraill megis diogelu, cyfleoedd cyfartal a'n hymrwymiad i fod yn ysgol sy'n parchu hawliau plant.
- hyrwyddo/cyfleu gwrth fwlio i ddisgyblion a rhieni a sicrhau bod y Polisi Gwrth Fwlio a'r deunyddiau hyrwyddo ar gael i'w gweld;
- cofnodi a monitro bwlio, ymateb iddo a deilliannau;
- darparu dulliau gwahanol o adrodd achosion o fwlio;
- cynnwys disgyblion a rhieni mewn datblygu strategaethau i fynd i'r afael â bwlio a hybu ethos parchus a chadarnhaol yn Ysgol Llanhari;
- darparu addysg ar draws cymuned yr ysgol i godi ymwybyddiaeth, cyfathrebu, atal ac ymateb i fwlio;
- gweithio gydag asiantaethau a phartneriaid i roi arferion gwrth fwlio effeithiol ar waith.
- adrodd nôl am achosion o fwlio i'r llywodraethwyr

**Sut ydym ni'n mynd i'r afael â bwlio yn Ysgol Llanhari?**

Rydym yn ceisio creu awyrgylch a all atal bwlio. Ein hamcan yw gwella perthynas disgyblion trwy eu hannog i siarad am eu teimladau yn hytrach na defnyddio dulliau corfforol neu ymosod fel arall, a defnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael yn yr ysgol i gyflawni hyn trwy:

- Wrando ar ac ymateb i lais y disgybl gan roi ystyriaeth i bawb o fenw cymuned yr ysgol
- Ymgysylltu â rhieni
- Darparu gwasanaeth llesiant cadarn i nodi unigolion sy'n agored i fwlio, deall canfyddiadau, darparu ELSA a sgiliau cymdeithasol a chyfleoedd dysgu i hybu rhyngweithio cadarnhaol a hyder gan drefnu sesiynau cwnsela a chymorth i'r bwli a'r dioddefwr, a goruchwylio mor agos â phosibl yn ystod amser egwyl a chinio
- Cymryd camau penodol i ymdrin ag achosion o fwlio gan gosbi'n briodol
- Cynnal a rhoi cymorth i ddisgyblion sydd yn bwlio fel nad yw'n batrwm sy'n cael ei ail-adrodd ac yn cael effaith negyddol ar ddisgyblion eraill sy'n dargedau.

Dilynwn ganllawiau Rhondda Cynon Taf sy'n nodi'r canlynol (tud. 60 polisi sirol):

Ni ddylai ysgolion ddioddef bwlio.

- Bydd ysgolion yn ceisio sicrhau bod y person sy'n cael ei fwlio yn ddiogel
- Bydd ysgolion yn ceisio atal y bwlio rhag digwydd eto
- Bydd ysgolion yn rhoi cymorth i'r person sy'n cael ei fwlio
- Bydd ysgolion yn cynryd camau i sicrhau bod y person/au sy'n cyflawni'r bwlio'n dysgu peidio niweidio eraill.

Ein hamcan yw ceisio codi hunan-barch disgyblion a chreu awyrgylch lle mae pawb yn parchu hawliau eraill, yn caniatáu'r hawl i eraill ddysgu ac addysgu mewn amgylchedd heddychlon a threfnus.
Nid oes un strategaeth y gellir ei defnyddio i ymdrin â bwlio. Mae angen, felly, bod ag amrywiaeth o strategaethau sydd ar gael i'w gweithredu pan fo'n briodol, megis:

- Dulliau Cwricwlwm
- Mentora cyfoedion
- Gwrando ar gyfoedion
- Bod yn ffrind
- Ymgynghori â'r cyngor ysgol
- Dulliau 'Dim bai'
- Amser cylch
- Gweithio gydag asiantaethau allanol
- Cadw cofnod o ddigwyddiadau
- Cofnodi achosion o fwlio ynghyd â phrosesau monitro ac ymateb yr ysgol
- Monitro nodweddion gwarchodedig: Oedran, Anabledd, Ailbennu rhywedd, Hil, Crefydd a Chred, Rhyw, Cyfeiriadedd rhywiol, yn gysylltiedig â bwlio
- Hybu amrywiaeth
- Hybu'r neges am hawliau plant yng Nghonfensiwn y Cenehedloedd Unedig ar hawliau'r plentyn

## Addysg Gwrth Fwlio yn y Cwricwlwm

Bydd yr ysgol yn codi ymwybyddiaeth o natur wrthgymdeithasol bwlio trwy'r rhaglen ABCh, mewn gwasanaethau ysgol, trwy'r cyngor ysgol, defnyddio amser tiwtora, sesiynau ELSA ac yn rhaglenni astudio'r cwricwlwm cenedlaethol fel y bo'n briodol. Mae agweddau ar fwlio wedi'u cynnwys mewn themâu trawsgwricwlaidd ym mhynciau canlynol yr adran uwchradd: Drama, Saesneg, Cymraeg, yn ogystal â gwersi ABCh.

Bydd newid agwedd ac ymddygiad bwlis yn rhan o gyfrifoldeb y gweithdrefnau cadarnhaol y mae'r ysgol yn eu defnyddio. Fodd bynnag, mae'r ysgol yn cydnabod y bydd angen defnyddio cosbau ar gyfer y bwlis hefyd.

## Cosbau

Mae amgylchiadau pob digwyddiad yn wahanol a gellir defnyddio unrhyw gosbau ffurfiol yr ysgol yn erbyn bwlis fel y bo'n briodol.

Mae cosbau yn cynnwys:

- Cadw i mewn fel cosb i'r bwli ac i gadw'r dioddefwr yn ddiogel yn ystod amser egwyl a chinio.
- Gwahardd o weithgareddau allgyrsiol/oddi ar y safle.
- Gwahardd mewnol.
- Gwaharddiad tymor penodedig yn addas i'r sefyllfa – gallai hyn fod am ddiwrnod neu'n sylweddol fwy yn dibynnu ar ddifrifoldeb y mater a/neu drais corfforol a ddigwyddodd. Mewn achosion eithafol gallai hyn arwain at waharddiadau parhaol.
- Gellir atal bwli rhag teithio ar yr un bws â'r dioddefwr.
- Os yw'r bwli yn gyfrifol am dorri neu ddifrodi eiddo'r dioddefwr, gellid gofyn i'r bwli dalu am y difrod neu brynu eiddo newydd yn ei le.
- Cais i gymryd rhan mewn dulliau adferol.

## Rolau a Chyfrifoldebau

### Y Corff Llywodraethu

Bydd y Corff Llywodraethu yn cysylltu â'r Pennaeth a'r Tîm Arwain ynglŷn â'r holl strategaethau gwrth fwlio ac achosion unigol pan fo'n briodol. Disgwylir i'r corff llywodraethol ddilyn y camau yn y ddogfen a gyhoeddwyd gan Llywodraeth Cymru yn 2019 Herio bwlio.

### Y Pennaeth

Mae gan y Pennaeth ddyletswydd i atal bwlio ymhlith disgyblion.

**Bydd y Pennaeth a'r Tîm Arwain yn:**

- sicrhau bod staff yn cael cyfle i drafod strategaethau a'u hadolygu;
- pennu'r strategaethau a'r gweithdrefnau;
- trefnu cyfleoedd am hyfforddiant staff perthnasol;
- gweithio gyda'r Cydlynydd Mentora Disgyblion (Llesiant) i hyrwyddo'r agenda parch a strategaethau gwrth fwlio a gwasanaethau cymorth dan arweiniad disgyblion;
- sicrhau bod yr holl staff, rhieni a disgyblion yn ymwybodol o'r gweithdrefnau;
- adrodd i'r corff llywodraethu a'r AALl; a
- monitro ac adolygu'r polisi.

**Bydd yr Arweinydd Safonau Cyrhaeddiad / Cydlynydd Mentora Disgyblion yn:**

- gyfrifol am reoli'r polisi a'r systemau o ddydd i ddydd, gan gynnwys ymchwilio a chofnodi digwyddiadau a chamau a gymerwyd a chyfathrebu â rhieni;
- sicrhau bod strategaethau a gweithdrefnau cadarnhaol ar waith i helpu'r rhai sy'n cael eu bwlio a'r bwlis;
- rhoi'r holl wybodaeth i'r Pennaeth Cynorthwyol Lles a Chynhwysiant am ddigwyddiadau ac atgyfeirio i asiantaethau allanol pan fo angen fel y bo'n briodol;
- monitro a chefnogi pawb sy'n gysylltiedig â'r sefyllfa.

**Bydd yr holl staff yn:**

- ymdrin ag anghydfod o ddydd i ddydd ac atgyfeirio i'r Arweinydd Safonau Cyrhaeddiad/Arweinydd Meithrin – blwyddyn 4 fel y bo'n briodol;
- cyfrifol am sicrhau bod strategaethau cadarnhaol yr ysgol yn cael eu rhoi ar waith;
- gwybod a dilyn gweithdrefn yr ysgol ac ymdrin ag unrhyw ddigwyddiadau a gaiff eu hadrodd;
- sylwgar a gofyn i'r disgyblion beth sy'n digwydd iddynt;
- peidio â gadael i unrhyw achos o fwlio fynd heb ei adrodd, boed ar y safle neu yn ystod gweithgaredd oddi ar y safle;
- cymryd rhan mewn gweithgareddau ABCh / gwaith gwrth fwlio thematig gyda disgyblion; a
- modelu ymddygiad priodol.

**Rhieni / gwarcheidwaid**

- Dylai rhieni, yn ogystal â'r holl staff a disgyblion, wybod na fydd yr ysgol yn goddef bwlio, a'i bod yn defnyddio dull cadarnhaol o addysgu disgyblion i'w ddatrys.
- Bydd rhieni disgyblion sy'n cael eu bwlio a rhieni'r bwlis yn rhan o'r ymateb i'r broblem fel y bo'n briodol yn ôl yr Arweinydd Safonau Cyrhaeddiad / Arweinydd Meithrin – blwyddyn 4 / Cydlynydd Mentora Disgyblion
- Bydd rhieni yn cael gwybod am y polisi a'r gweithdrefnau a'r posibilrwydd o waharddiad tymor penodedig neu barhaol yn dilyn gweithredoedd bwlio difrifol.
- Bydd rhieni yn cael cais i gydweithio gyda'r ysgol i wella perthnasoedd rhwng disgyblion.

- Bydd rhieni yn cael gwahoddiad i'r ysgol i drafod materion â'r aelodau staff perthnasol neu'r unigolyn neu asiantaeth briodol yn ôl yr angen.
- Gofynnir i rieni i gysylltu yn gyntaf â'r athro dosbarth cynradd/ Arweinydd Safonau Cyrhaeddiad/ Cydlynydd Mentora Disgyblion os ydynt yn amau bod eu plentyn yn cael ei fwlio neu'n fwli.
- Bydd y Cydlynydd Mentora Disgyblion ar gael i gefnogi rhieni a disgyblion.

**Disgyblion**

- Bydd disgyblion yn cael eu hannog i drafod bwlio ac i fod yn rhan o ffurfio strategaethau mewn ymateb i fwlio.
- Bydd disgyblion sy'n gyfoedion i'r bwli a'r dioddefwr yn cael eu hannog i wrthod unrhyw ymddygiad corfforol neu eiriol ei fwriad yw brifo yn fwriadol.
- Bydd disgwyl i ddisgyblion adrodd unrhyw achosion o fwlio.
- Ni ddylai disgyblion fod yn oddefol i fwlio.
- Gall disgyblion nad ydynt yn teimlo eu bod yn gallu siarad ag athro, gall disgybl arall neu ffrindiau disgyblion a allai fod angen cymorth, roi gwybod i staff yn ddienw trwy adael nodyn/neges i unrhyw athro.
- Bydd disgwyl i ddisgyblion fabwysiadu ffyrdd positif o ymdopi â sefyllfaoedd anodd, yn hytrach na defnyddio trais neu fygythiadau.

**Monitro ac Adolygu**

Caiff effeithiolrwydd y polisi ei fonitro fel a ganlyn:

- Bydd yr Arweinwyr Safonau Cyrhaeddiad, Arweinydd Meithrin i Flwyddyn 4 neu'r Pennaeth Cynorthwyol Lles a Chynhwysiant yn cofnodi ac yn categoreiddio digwyddiadau bwlio mewn cofnod canolog. Bydd y cofnod yn cael ei ddefnyddio i goladu gwybodaeth a phatrymau digwyddiadau bwlio yn ystod y flwyddyn.

- Adborth gan ddisgyblion, rhieni ac asiantaethau allanol trwy adroddiadau ffurfiol, trafodaethau anffurfiol, cyfweliadau ffurfiol – e.e. trwy ryngweithio â'r Athro Dosbarth, Tiwtor Personol, Arweinydd Safonau Cyrhaeddiad / Cydlynydd Mentora Disgyblion, mewn gwersi penodol sy'n ymdrin â materion bwlio.

- Adrodd i Is-bwyllgor Llesiant y Llywodraethwyr ar effeithiolrwydd y polisi a chynnwys Llywodraethwyr yn y broses o adolygu'r polisi.

- Sicrhau y clywir llais y disgybl yn glir trwy'r Cyngor Ysgol.

- Bydd Y Pennaeth Cynorthwyol Lles a Chynhwysiant yn cadw ac yn rhoi ystyriaeth i adroddiadau am ddigwyddiadau difrifol. Bydd yr ysgol yn ystyried yr adroddiadau i bennu beth y gellir ei ddysgu o'r digwyddiadau a sut yr ymdriniwyd â nhw â'r nod o wella strategaethau'r ysgol. Bydd y Pennaeth yn adrodd ar fwlio i'r corff llywodraethu.

Adolygwyd y Polisi ym Mai 2022 gan Janice Cowan/ Meinir Thomas

Cydlynydd Mentora Disgyblion / Dirprwy Bennaeth mewn ymgynghoriad â disgyblion y cyngor ysgol.

Llofnod Cadeirydd y Llywodraethwyr:

Dyddiad: